# CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

**Cymru o gymunedau gydlynus**

*“Atyniadol, hyfyw, diogel ac wedi eu cysylltu yn dda”*

Mae wedi ‘cysylltu’n dda’ erbyn hyn yn golygu cael mynediad at y dechnoleg ddiweddaraf. Pwy fyddai wedi gallu rhagweld cyn lleied â phum mlynedd yn ôl mor ganolog i’n bywydau fyddai cysylltedd â’r we?

MENTER MÔN Ers 1995

Erbyn hyn mae technoleg yn rhan o'n bywydau pob dydd ac rydym yn dibynnu ar y gallu i gysylltu am gymaint o bethau. Yn sgil Covid19 a'r angen i weithio gartref mae hyn wedi dod hyd yn oed yn fwy pwysig.

Fodd bynnag dydi cyswllt ddim bob amser yn dda iawn yn ein cymunedau mwyaf gwledig ac yn aml does dim band eang cyflym ar gael o gwbl. Oherwydd hyn rydym ni wedi chwilio am gyfleoedd i helpu nifer o ardaloedd ym Môn a Gwynedd i fynd ar-lein.

Un o'r cynlluniau hyn oedd rhoi **teclynnau 4G** am ddim i ganolfannau cymunedol a gweithwyr allweddol fel eu bod yn gallu mynd ar-lein drwy gydol y cyfnod clo. Wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, y nod oedd sicrhau bod pobl a llefydd oedd yn rhan o ymdrechion lleol i ymateb i Covid19 yn gallu defnyddio technoleg er mwyn cyflawni gwaith hanfodol.





Rhai o'r canolfannau hynny sydd wedi gallu manteisio ar y cynllun yw Siop Mechell yn Llanfechell, Ynys Môn a Chyngor Tref Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â nifer o gartrefi henoed.

Mae Gwenan Griffiths yn swyddog gwasanaethau cymdeithasol gyda Chyngor Gwynedd ac yn un o'r gweithwyr allweddol sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun. Dywedodd Gwenan: "Ryda' ni'n byw mewn llecyn mor wledig, ac mae'r signal ffôn a'r we yn wael iawn yma ar y gorau. Efo'r teulu i gyd adra  yn gweithio ac yn gwneud gwaith ysgol, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth. Rydw i'n ofnadwy o ddiolchgar fy mod wedi gallu manteisio ar y cynllun. Mae wedi golygu nad oes rhaid i mi wneud fy ngwaith yn oriau mân y bore bellach gan fod mwy nag un ohonom yn medru bod ar y we ar yr un pryd."

Gan aros ar yr un thema o gysylltedd, mae ein hymgyrch 'SuperFast' yn cefnogi cymunedau i weithredu er mwyn gwella cyflymder band llydan. Mae cyswllt annibynadwy yn gallu bod yn rhwystredig i unigolion ond i fusnes gall olygu'r gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda thrigolion gwahanol gymunedau felly, gan alw arnynt i gofrestru ar wefan BT Openreach, Connect My Community i hawlio talebion Llywodraeth Cymru i osod ffibr, uwchraddio cypyrddau rhwydwaith ac uwchraddio offer cyfnewid. Un o'r cymunedau hynny ydi Pistyll yng Ngwynedd. Gwyliwch isod i weld pa mor bwysig yw cael band llydan effeithiol i bobl a busnesau'r ardal.



Yn ogystal â'r gwaith yma rydym wedi bod yn targedu trefi er mwyn gwella cysylltedd hefyd gan ddefnyddio system o'r enw '**Patrwm**'. Mae'r prosiect eisoes wedi sicrhau WiFi rhad ag am ddim yng nghanol 8 o drefi Gwynedd ac mae cynllun tebyg newydd ei lansio yn Llangefni.

Mae 'Patrwm' yn rhoi mynediad band llydan am ddim i siopwyr a phobl sy'n ymweld â chanol trefi. Mae hefyd yn gallu tracio sut mae pobl yn symud o gwmpas y dref a faint o amser maen nhw yn treulio ar y stryd fawr. Y gobaith yw y bydd yr wybodaeth sy'n cael ei gasglu yn caniatáu cynllunio mwy effeithiol ar gyfer dyfodol y stryd fawr yn seiliedig ar arferion ac anghenion pobl.

Mae'r cynllun yn rhan o raglen ehangach **Trefi SMART Towns** sydd wedi bod yn monitro canol trefi ar hyd a lled Cymru. Mae'r dechnoleg yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau ar gynllunio canol tref. Gydag effaith Covid19 ar y stryd fawr y gobaith yw y bydd Patrwm a Trefi SMART Towns yn gallu helpu adfywio'n trefi i'r dyfodol.




Er ei fod mor bwysig, yn amlwg, mae llawer mwy i greu cymunedau cydlynol na chyswllt gyda'r we a band llydan. Dyma felly i chi flas ar rhai o'n prosiectau eraill sydd wedi bod yn cadw ni'n brysur dros y cyfnod diweddaraf yma.

**Bro Môn**

Dyma gynllun sy'n cefnogi mentrau cymdeithasol ar draws Ynys Môn - ac fel menter gymdeithasol brofiadol roedd Menter Môn yn falch o allu cefnogi'r prosiect gydag arian rhaglen LEADER. Wedi ei ysbrydoli gan Gwmni Bro Ffestiniog, bydd yn sicrhau cyfleoedd newydd i rannu profiad a chefnogaeth i sefydlu a rhedeg menter gymdeithasol.

Eisiau gwybod mwy?
Ewch i **www.bromon.cymru**

## GOFOD

Gall adeiladau gwag fod yn broblem yn ein cymunedau, yn fwy felly yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig gyda phwysau ar fusnesau a grwpiau cymunedol. Taclo hyn sydd wrth wraidd cynllun GOFOD sy'n gobeithio ychwanegu gwerth at adeiladau gwag yng Ngwynedd. Rydym yn awyddus i weithio efo grwpiau ac unigolion i ddatblygu syniadau er mwyn llenwi gofodau i greu llefydd i weithio, stiwdios celf neu ofodau creadigol i greu. Rydym wedi galw am ddatganiadau o ddiddordeb ac mae 8 lleoliad eisoes wedi cysylltu yn y gobaith o fanteisio ar y cynllun. Byddwn yn dod a mwy o newyddion i chi am Gofod wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.

## Carwyn a Carwen

I'r rhai sydd ddim yn gyfarwydd efo nhw  - ceir trydan cymunedol yw Carwyn a Carwen. Yn brosiect dan faner Arloesi Gwynedd Wledig mae'r ceir wedi eu lleoli ym Mhenygroes a Llanaelhaearn ac ar gael i bobl eu llogi. Bwriad y cynllun yw treialu system o rannu ceir cymunedol mewn ardal wledig i helpu pobl sydd wedi eu hynysu ond hefyd i hyrwyddo ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio.




Yn ystod y pandemig mae'r ceir wedi bod yn cael eu defnyddio gan wirfoddolwyr i fynd â phobl i apwyntiadau meddygol, i siopa ac i ddanfon nwyddau meddygol hanfodol i drigolion bregus yng Ngwynedd.

